# Ardaloedd, adeiladau a henebion



Castell Lincoln. Llun gan: Colin McLean Photography

Mae edrych ar ôl adeiladau hanesyddol, henebion ac archaeoleg yn sicrhau y gallwn ddiogelu'r lleoedd y mae pobl yn eu caru ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ers 1994 rydym wedi dyfarnu £3.3bn i fwy na 10,300 o brosiectau ardal, adeiladau hanesyddol a henebion ledled y DU.

Gall y prosiectau hyn helpu i gynnal swyddi, cefnogi twf economaidd a diogelu treftadaeth sydd mewn perygl. Gallan nhw hefyd hybu balchder lleol, meithrin sgiliau crefftau traddodiadol a helpu cymunedau i fwynhau'r lleoedd y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw a gwneud defnydd ohonyn nhw.

## Beth rydym yn ei gefnogi?

Mae'r prosiectau yr ydym yn eu hariannu yn cynnwys:

- Cadwraeth ac atgyweirio adeiladau a mannau hanesyddol
- Dod o hyd i ddefnyddiau newydd addas ar gyfer adeiladau hanesyddol
- Prosiectau archaeoleg gymunedol

### Mannau addoli

Mae addoldai ymhlith adeiladau hanesyddol hynaf a mwyaf clodwiw'r DU. Rydym am helpu cynulleidfaoedd i ddod yn wirioneddol wydn a'u hadeiladau'n wirioneddol gynaliadwy.

Mannau addoli yr ydym yn eu hariannu

## Syniadau am brosiect

Gall ein harian helpu pobl i:

- atgyweirio a thrawsnewid adeilad hanesyddol sydd wrth galon eu cymuned
- helpu gwirfoddolwyr i ddysgu sgiliau cadwraeth adeiladau
- achub adeilad ar gofrestr adeiladau mewn perygl
- ymgymryd â phrosiect archaeoleg gymunedol
- adfywio canol tref hanesyddol neu stryd fawr
- edrych ar ôl a dysgu am gofeb ryfel leol

Am ragor o ysbrydoliaeth, gweler y straeon isod neu porwch drwy brosiectau rydym wedi'u hariannu.

## Sut i gael arian

Darganfyddwch os yw eich prosiect yn gymwys i gael arian.